Adroddiad i'r	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad y cyfarfod	24 Tachwedd 2021
Aelod Arweiniol / Swyddog	Y Cyng. Julian Thompson-Hill / Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol
Awdur yr adroddiad	Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol
Teitl	Adolygiad Dilynol Archwilio Mewnol o Reoli Contractau

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd wrth weithredu'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â'r adroddiad Archwilio Mewnol ar Reoli Contractau. Cyflwynwyd yr adroddiad archwilio gwreiddiol i'r pwyllgor ym mis Gorffennaf 2020 a gofynnodd y pwyllgor am gynllun gweithredu diwygiedig i adlewyrchu newidiadau allweddol. Cafodd y cynllun diwygiedig ei gyflwyno i'r pwyllgor ym mis Ionawr 2021 a gofynnodd yr aelodau am adroddiad cynnydd pellach.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Bwriad yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth am y ffordd y mae'r Cyngor wedi gwella'r trefniadau rheoli contractau ers cyhoeddi'r adroddiad Archwilio Mewnol a'r cynllun gweithredu diwygiedig. Rhoddodd yr adroddiad sicrwydd isel, felly gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am adroddiad cynnydd. Dyma'r ail adroddiad cynnydd.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y pwyllgor yn adolygu'r cynnydd wrth fynd i'r afael â chamau gweithredu'r archwiliad ac yn penderfynu a oes angen unrhyw adroddiad diweddaru pellach ynglŷn â chynnydd y cynllun gweithredu gwelliant.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Rhoddodd ein hadolygiad o drefniadau rheoli contractau (adroddiad mis Ionawr 2020) sicrwydd isel. Ym mis Gorffennaf 2020, sylwodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio fod y cynllun gweithredu gwreiddiol yn cynnwys camau gweithredu nad oeddynt bellach yn ymarferol oherwydd bod Adolygiad o'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol wedi'i atal ar anterth pandemig Covid-19. Ym mis Ionawr 2021 cytunodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio ar gynllun gweithredu diwygiedig i ddarparu sicrwydd bod camau gweithredu addas wedi'u nodi i ailneilltuo camau gweithredu Adolygiad o'r Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol (sydd wedi'i roi i un ochr am y tro oherwydd Covid-19) i swyddogion penodol. Cyflwynwyd yr adroddiad dilynol cyntaf i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf 2021, a oedd yn rhoi sicrwydd isel. Oherwydd hynny, gofynnodd yr aelodau am gamau dilynol pellach i fonitro'r cynnydd.

4.2. Mae'r ail adroddiad dilynol yn adolygu cynnydd y camau gweithredu yn unol â'r cynllun gweithredu diwygiedig (mae'r adroddiad llawn yn Atodiad 1).Mae cynnydd wedi'i wneud mewn sawl maes ers yr adroddiad dilynol cyntaf. Mae sefydlu Fforwm Rheoli Contractau a chymeradwyo adnoddau rheoli contractau pwrpasol yn welliannau sy'n derbyn croeso; fodd bynnag, mae angen rhagor o amser i roi'r rhain ar waith yn iawn. Nid yw profi a gweithredu'r fframwaith wedi'i gyflwyno i wasanaethau eto. O ganlyniad, nid yw nifer o gamau gweithredu a oedd yn cynnwys dyddiadau gweithredu uchelgeisiol wedi'u rhoi ar waith yn llawn. Mae'r camau allweddol sydd heb eu cymryd yn cynnwys: cynnal hyfforddiant ar gyflwyno a defnyddio'r fframwaith a defnyddio Proactis yn gyson i gofnodi a monitro.

4.3. Yn seiliedig ar y cynnydd sydd wedi'i wneud wrth weithredu'r camau cytunedig, rydym ni'n darparu sicrwydd 'isel'. Mae Archwilio Mewnol yn bwriadu cymryd camau dilynol pellach i adolygu'r cynnydd wrth gyflawni'r camau gweithredu sydd ar ôl.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.